



Amcan Llesiant 9

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

Y canlynol yw ein hymrwymiaadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymiaadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ledled y gwasanaethau gofal cymdeithasol		
Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella sut mae'r Gwasanaethau Plant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi teuluoedd, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hwylus, yn gywir, ac yn hawdd ei chyrru mewn gwahanol fformatau, a datblygu cysylltiadau â chyfeirlyfr gwasanaethau Dewis. (Cyf. 13203)	✓	Mae gwefan newydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi bod yn gwbl weithredol ers Mehefin 2018. Mae'n cyfeirio pobl i'r cyfeiriad cywir i gael gwybodaeth am ystod eang o faterion sy'n ymwneud â'r teulu, gofal plant a gwasanaethau cymorth. Mae cyfrifon y cyfryngau cymdeithasol wedi'u sefydlu i'w hyrwyddo i gynulleidfa ehangach. Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gweithio'n agos gyda Dewis ac mae'r holl ddarparwyr gofal plant ac ymholiadau yn cael eu cofnodi ar ei wefan. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol gyda Phowys, Sir Benfro a Cheredigion i rannu syniadau ac arfer gorau.
Byddwn yn adolygu ein gwasanaeth anabledi i sicrhau bod yna bontio a llwybrau di-dor o fod yn blant i fod yn oedolion. (Cyf. 13204)	✓	O 1 Mai 2018 mae pob un o'n hatgyfeiriadau ar gyfer plant anabl o 0-25 oed wedi cael ei phrosesu drwy ein Tîm Atgyfeirio Canolog i blant. Mae hyn wedi creu un pwynt mynediad i deuluoedd a phobl ifanc sy'n chwilio am gymorth. Rydym wedi diweddarau ein meini prawf cymhwysedd ar gyfer asesu ac mae'r rhain bellach wedi'u halinio o 0-25 oed. Mae hyn yn sicrhau ymateb cyson i angen, beth bynnag fo'u hoed. Rydym wedi cynnal cyfres o 'Ddigwyddiadau Gwrando' gyda phobl ifanc a theuluoedd i ddeall eu profiadau a'u pryderon ynghylch pontio i oedolaeth. O ganlyniad, rydym wedi sefydlu 'Gweithgor' o reolwyr, partneriaid trydydd sector, rhieni a phobl ifanc i helpu i wella'r gwasanaeth. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob mis i gyd-lunio cynllun gweithredu a bydd hyn yn cynnwys llwybr pontio.
Byddwn yn sicrhau bod trefn lywodraethu effeithiol briodol ar waith gyda'r Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol er mwyn darparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Cymorth er mwyn cydymffurfio â'n Dyletswydd Statudol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. (Cyf. 13205) MF5-52a	✓	Rydym wedi adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Mae hyn yn golygu bod gennym grŵp Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gweithredol chwarterol sy'n cynnwys ystod o swyddogion i drafod y gwasanaeth ac unrhyw ddatblygiadau yn ogystal â sefydlu trefniadau rheoli contract rhwng is-adran gomisiynu'r Awdurdod a Llesiant Delta. Mae'r is-adran gomisiynu yn darparu trosolwg da ar berfformiad ac mae Llesiant Delta yn darparu rôl sicrhau ansawdd strategol a gwrthrychol.
B - Byddwn yn hyrwyddo ac yn datblygu cysylltiadau cryf ar gyfer pobl, lleoedd a sefydliadau		
Byddwn yn gweithredu Cynllun Cyflawni Rhanbarthol newydd Canolbarth a Gorllewin	✓	Mae Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn hwyluso'r gwaith o

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Cymru ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2017/19 drwy sicrhau bod pedair egwyddor y Cynllun yn parhau i gael eu cefnogi. (Cyf. 13206)</p>		<p>gyflawni'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol. Sir Gaerfyrddin-disgrifir gwaith perthnasol isod.</p> <p>Amcan 1: Gweithio ar lefel strategol i oresgyn rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar draws grwpiau sydd ar gyrion cymdeithas. Mae Cydlyniant Cymunedol wedi cael ei brif-ffrydio i'r Cynllun Busnes Is-adrannol a'r system PIMS. Rhoddodd y Cydgysylltydd gyngor ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan gynnwys y Polisi Dyrannu. Cyfarfu'r Cydgysylltydd â Phrifysgol Aberystwyth i drafod Sir Gaerfyrddin fel ardal astudio mewn cynnig ymchwil ymfudo.</p> <p>Amcan 2: Gweithio ar lefel leol i oresgyn rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar gyfer grwpiau penodol. Sipsiwn a Chrwydraid – roedd y Cydgysylltydd yn rhan o'r Grŵp Llywio Sipsiwn a Chrwydraid a rhoddodd gyngor ynghylch dysgu o'r safle a ddatblygwyd ym Mhowys. Helpodd y Cydgysylltydd Rwydwaith Tenantiaid Llanelli i ddarparu cyngor ac enwau cyswllt ynghylch y Digwyddiad Amlddiwylliannol. Bu i'r Cydgysylltydd fynychu Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol Cefnogi Pobl i lywio'r Rhaglenni Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Mae'r Cydgysylltydd wedi gwneud gwaith dilynol i gysylltu Canolfan Cofnodi a Chefnogaeth Troseddau Atgasedd Cymru Gyfan, Rhaglen Ymgysylltu Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a'r Gwasanaeth Eiriolaeth a Chyngor 'Travelling Ahead' i Sipsiwn a Theithwyr. Bydd hyn yn cynnwys cynnig gwasanaethau cyfeirio, hyfforddiant a chyllido.</p> <p>Amcan 3: Cefnogi mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau lletyol yn ystod y broses integreiddio. Roedd y Cydgysylltydd ynghlwm wrth Grŵp Rhanddeiliaid Ceisio Lloches ac Ymfudo Cymru, Grŵp Amlasiantaeth Rhaglen Ailsefydlu Syria Sir Gâr a Dathliad Eid Syria Sir Gâr. Cynhaliwyd digwyddiad gwybodaeth i deuluoedd Syriaidd yn Llanelli.</p> <p>Amcan 4: Helpu cymunedau i atal gelyniaeth ac eithafiaeth a rheoli canlyniadau. Bu'r Cydgysylltydd yn bresennol yn un o gyfarfodydd Grŵp Gwrth-gaethwasiaeth Rhanbarthol Dyfed-Powys. Mae uchafbwyntiau gwaith rhanbarthol ehangach yn cynnwys bwrw ymlaen â chynlluniau gweithredu i gydymffurfio â Chôd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, datblygu System Monitro Tensiwn ym Mhowys, a gweithio ar ddatblygu model Rhaglen Hybrid Adsefydlu Syriaidd gyda'r Swyddfa Gartref, Cyngor Sir Penfro a Noddwyr Cymunedol.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo a chyhoeddi'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin, boed yn sioeau</p>	✓	<p>Dyrannwyd arian y Gronfa Cymorth Digwyddiadau yn llawn drwy'r cyfnod hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 18/19 a derbynnir ceisiadau ar gyfer 2019/2020. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer Marathon Mawr Cymru a</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
amaethyddol, yn wyliau, yn garnifalau, yn arddangosfeydd, yn gyngherddau neu'n berfformiadau. (Cyf. 13207) MF5-85		Hanner Marathon Mawr Cymru 2019 ym mis Ebrill, Gŵyl Lenyddiaeth Llandeilo ym mis Ebrill, Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri ym mis Medi, Gŵyl y Celtiaid ym mis Mai, Tynnu Rhaff yn Llanboidy ym mis Gorffennaf, Gŵyl Synhwyr Llandeilo ym mis Tachwedd a Gŵyl yr Orsedd ym mis Gorffennaf 2019, a chytunwyd ar ddyddiadau i gwrdd â'r trefnwyr ynghylch potensial twristiaeth. Bu'n rhaid treulio mwy o amser yn gweithio gyda threfnwyr y digwyddiad llwyddiannus ar y manylion sydd angen eu hawlio o'r gronfa nag a ystyriwyd yn flaenorol, ac un o'r amcanion ar gyfer y dyfodol yw symleiddio'r broses hon, yn enwedig ar gyfer symiau llai o arian.
C - Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cymdogion		
Byddwn yn clustnodi'r adnoddau ffisegol sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant eu poblogaeth drwy borth gwybodaeth penodedig ar-lein megis Dewis Cymru. (Cyf. 13208)	✓	Mae'r gymuned yn dal i ychwanegu gwybodaeth at Dewis. Rydym wrthi'n cael adrannau mewnol eraill o'r Cyngor i roi eu gwybodaeth ar Dewis. Pan fydd hyn wedi'i wneud, gall yr holl adrannau mewnol ychwanegu eu gwybodaeth at Dewis, er enghraifft, hamdden.
Byddwn yn buddsoddi ac yn gwella ansawdd sgiliau ein gweithlu i sicrhau ein bod yn bodloni Amcanion Llesiant ein poblogaethau a amlinellwyd ar lefel ardal leol. (Cyf. 13209)	✓	Mae'r gweithgor wedi ystyried sut y caiff y 3 thîm rheoli gofal eu hariannu. Mae'r grŵp hefyd wedi edrych ar adroddiad cenedlaethol ar recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol ac mae wedi comisiynu adroddiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion Sir Gaerfyrddin. Mae arolwg staff wedi cael ei lunio a'i ddogfenaru'n electronig, a bu i fwy na 100 o staff ymateb. Mae pwysigrwydd yr Adolygiad Seneddol a'r ymrwymiad i weithlu iach a chefnogol yn cael ei gyfleu'n barhaus ar draws yr is-adran gan y Pennaeth Gwasanaeth mewn diweddariad misol.
Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau gwe Synnwyr Arian er mwyn gwella incwm, datblygu cynnyrch a'i farchnata. (Cyf. 12612)	✓	Rydym yn parhau i ddatblygu'r adnoddau gwe ac yn ychwanegu atynt gyda golwg ar ddatblygu "Wythnos Synnwyr Arian" ledled y sir, ynghyd â chystadleuaeth rhwng ysgolion i wella ymgysylltiad.
Byddwn yn defnyddio elw troseddau ar draws y gwasanaethau rheoleiddio i amddiffyn pobl. (Cyf. 13210)	✓	Rydym wedi adennill dros £250,000 mewn enillion troseddau a thros £60,000 mewn iawndal i ddefnyddwyr. Rydym wedi cwblhau gwaith ar ran 12 awdurdod lleol o ran ymchwiliadau ariannol – ymgymryd â chyflawni Deddf Enillion Troseddau ar lefel ranbarthol ar gyfer Dyfed ac wedi cael 8 Awdurdod i ymuno dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth.
Byddwn yn datblygu amrywiaeth o opsiynau a fydd yn gwobrwyo tenantiaid am ofalu am eu cartref. (Cyf. 13211)	✓	Mae amrywiaeth o opsiynau a syniadau wedi'u trafod gyda fforwm ymgynghorol y tenant. Ein polisi yw cyfuno hyn â'n polisi codi tâl a'r cynllun credydau amser i lunio un ddogfen gyffredinol sy'n cydnabod ac yn hybu ymddygiad cadarnhaol.
D - Byddwn yn parhau i gefnogi Cymunedau Mwy Diogel gyda'n partneriaid		
Byddwn yn sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r	✓	Yn ystod y flwyddyn, i gefnogi Strategaeth Troseddau Gwledig yr Heddlu, sefydlwyd Bwrdd Troseddau

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu. (Cyf. 13212)</p>		<p>Gwledig newydd. Mae hyn wedi annog gwell gwaith partneriaeth ac wedi gwella'r lefel o rannu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth rhwng cymunedau gwledig a phartneriaid er mwyn helpu i sicrhau y gallwn wella hyder cymunedau lleol ein bod yn mynd i'r afael â'r materion pwysicaf ac yn effeithio ar lefelau troseddu. Mae'r partneriaethau wedi mynd i'r afael â llawer o faterion, er enghraifft:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r timau Plismona Lleol wedi gweithio gyda Swyddogion Safonau Masnach y Cyngor i dargedu masnachwyr twyllodrus a sgamiau ar-lein i ddiogelu dioddefwyr a phobl sy'n agored i niwed. • Mae partneriaid wedi cymryd camau i dargedu bwrgeriaeth a throseddau caffaelgar eraill ledled y sir dros yr haf. Cafodd dioddefwyr sy'n agored i niwed a rhai sydd wedi dioddef troseddau dro ar ôl tro eu helpu i deimlo'n ddiogel fel rhan o gynllun a ariennir gan Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin. • Mae llawer o weithio mewn partneriaeth wedi bod yn digwydd gydol y flwyddyn i daclo gweithgarwch Llinellau Sirol. • Bu amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys y Cyngor, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Bwrdd Iechyd, darparwyr gwasanaeth cam-drin domestig a grŵp goroeswyr, yn hyrwyddo'r 'Ymgyrch Rhuban Gwyn' yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr, gan gefnogi camau i fynd i'r afael â thrais gan ddynion yn erbyn menywod.
<p>Byddwn yn lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. (Cyf. 13213)</p>	✓	<p>Mae'r grŵp gweithredu Trwyddedu, sef cyfarfod a gynhelir bob deufis rhwng yr Heddlu ac adran drwyddedu'r Cyngor, wedi parhau i roi sylw i unrhyw leoliadau sy'n achosi problem, ynghyd â safleoedd trwyddedig lle mae pryderon yn ymwneud ag anhrefn a throseddau cysylltiedig ag alcohol a sylweddau. Mae digwyddiadau'n dal i gael eu monitro'n agos er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu ar y cyd. Datblygodd y Grŵp gynllun gweithredu i weithio gyda safleoedd trwyddedig a swyddogion gorfodi Awdurdod y Diwydiant Diogelwch er mwyn ceisio lleihau digwyddiadau cysylltiedig ag alcohol a thrais yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.</p>
<p>Byddwn yn lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. (Cyf. 13214)</p>	✓	<p>Mae'r Cyngor yn bartner ar Fwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda ac mae'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth gomisiynu a'r asesiad o anghenion. Rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o sesiynau datblygu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i lywio'r strategaeth newydd. Yn ystod y digwyddiadau hyn, nodwyd blaenoriaethau a bylchau yn y gwasanaeth o'r adolygiad o anghenion lleol a'r sail dystiolaeth. Mae'r meysydd gwaith allweddol hyn wedi cael eu trafod gan Fwrdd Cynllunio Ardal y Bwrdd Gweithredol, ac</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>mae'r cyllidebau ar gyfer 2019/20 wedi cael eu haddasu'n unol â hynny er mwyn caniatáu buddsoddi mewn meysydd lle nodwyd bylchau.</p> <p>Mae Bwrdd Rhaglen ar y Cyd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl wedi'i sefydlu. Hefyd mae gwaith wedi'i gynnal ar gyrchu gwasanaethau a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y grŵp oedran 50+.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod ein tîm camddefnyddio sylweddau arbenigol yn diwallu anghenion y gwasanaethau plant ac oedolion drwy ddarparu cyngor, cymorth a mewnbwn uniongyrchol i dimau rheng flaen. (Cyf. 13215)</p>	✓	<p>Eleni, mae strwythur newydd gan y tîm. Mae gan y tîm Reolwr Tîm penodedig, a gefnogir gan weithiwr cymdeithasol ymgynghorol, 4 gweithiwr cymdeithasol a chynorthwydd cymorth busnes.</p> <p>Un o ofynion allweddol swydd y rheolwr yw sicrhau bod gwasanaeth gwaith cymdeithasol o ansawdd da yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau.</p> <p>Mae'r tîm wedi symud i swyddfa newydd yn Nhŷ Elwyn ac mae cydweithwyr o'r Bwrdd Iechyd wedi ymuno â nhw yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cefnogi'r dull partneriaeth rhwng timau yn ogystal â'r timau gofal cymdeithasol eraill sydd wedi'u lleoli yn Nhŷ Elwyn.</p> <p>Mae'r tîm wedi bod yn darparu hyfforddiant 'Yfed Doeth, Heneiddio'n Dda' sy'n canolbwyntio ar effaith y defnydd o alcohol ar bobl hŷn. Mae'r tîm wedi darparu'r hyfforddiant hwn i staff rheoli gofal a staff gofal uniongyrchol yn y gwasanaethau Integredig.</p> <p>Mae'r tîm wedi dechrau rhoi dull 'POD' ar waith ar gyfer goruchwyllo a rheoli achosion. Mae hyn yn defnyddio'r dull systematig a ddatblygwyd yn y gwasanaethu Plant i drafod yr holl achosion fel tîm.</p> <p>Bydd hyn yn sicrhau rheoli risg effeithiol a gwell canlyniadau ar gyfer achosion, gan ganiatáu i oruchwyliaeth ganolbwyntio ar ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol.</p>
<p>Byddwn yn ymateb i Adroddiad Diogelwch Cymunedol yng Nghymru Swyddfa Archwilio Cymru, a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ac Awdurdodau Lleol. (Cyf. 13216)</p>	✓	<p>Bellach mae nifer o ymrwymiadau blaenoriaeth sydd wedi'u dylunio i gefnogi gwireddu'r weledigaeth a rennir ar gyfer gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru, yn ffurfio Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru (2018-2021). Mae Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin wedi cael ei hadolygu bellach ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael gwybod am y canlyniad. Bydd gwaith y Bartneriaeth hon bellach yn cyd-fynd â'r rhaglen genedlaethol sy'n datblygu.</p>
<p>Byddwn yn gweithredu'r cynllun ar gyfer y 'Ddyletswydd Atal' (i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth) a ddatblygwyd gyda phartneriaid yng nghyfarfod Bwrdd y CONTEST (strategaeth wrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig). (Cyf. 13217)</p>	✓	<p>Yn ystod y flwyddyn mae gwaith wedi'i wneud i ad-drefnu trefniadau gweithio gyda phartneriaid yn y mater hwn. Mae Bwrdd CONTEST Sir Gaerfyrddin wedi'i adsefydlu ac mae cyswllt rhwng hyn a'r Bwrdd CONTEST rhanbarthol. Bydd cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddefnyddio yn awr i fonitro cynnydd</p>
<p>Byddwn yn sefydlu ymagwedd person-ganolog at ddiogelu, sy'n sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei glywed ac yn ganolog i benderfyniadau a wneir. (Cyf. 13218)</p>	✓	<p>Mae cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r cam hwn wedi cael ei wneud. Mae'r trefniadau diogelu yn Sir Gaerfyrddin wedi'u datblygu ymhellach i sicrhau bod sgyrsiau ystyrlon â'r oedolyn sy'n wynebu risg yn</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>digwydd cyn gynted â phosibl ac yn parhau nes bod y canlyniadau priodol wedi'u cyflawni. Bellach mae'r dull hwn yn rhan annatod o arferion y tîm diogelu.</p> <p>Mae'r bwrdd diogelu rhanbarthol wedi rhoi mandad clir i'r arweinwyr diogelu ddatblygu set gadarn o ddangosyddion perfformiad sy'n dangos bod hyn yn digwydd a bod canlyniadau'r defnyddwyr gwasanaethau wedi'u cyflawni. Mae cyfres o weithdai wedi'u trefnu yn 2019 i ddatblygu mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</p> <p>Mae cyfanswm o wyth digwyddiad hyfforddi wedi'u darparu hyd yn hyn, gyda'r nod o atgyfnerthu dull o ddiogelu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan atgoffa pob gweithiwr proffesiynol bod llais defnyddiwr y gwasanaeth yn hollbwysig. Bydd yr hyfforddiant hwn yn parhau drwy gydol 2019.</p>
<p>Byddwn yn adolygu contractau'r trydydd sector i sefydlu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a thrawsnewid gwasanaethau ym maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu. (Cyf. 13219)</p>	✓	<p>Mae tîm comisiynu gwaith wedi'i sefydlu i adolygu contractau'r trydydd sector sy'n cael eu comisiynu gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor fel rhan o'r rhaglenni anableddau dysgu a Thrawsnewid Iechyd Meddwl.</p> <p>Mae'r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir gan y trydydd sector yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan gydweithwyr comisiynu ar draws y rhanbarth gyda golwg ar ddatblygu cynllun eiriolaeth rhanbarthol.</p> <p>Rydym hefyd wedi dechrau gweithio gyda'r trydydd sector i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn ymchwilio i gyfleoedd i gydweithio mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ac atal.</p>
<p>Byddwn yn cynnal ac yn ymdrechu i leihau ymhellach y lefelau trosedd isel, sydd eisoes ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr (5.1.1.2) (Targed 2018/19 - 10,137)</p>	x	<p>Canlyniad 2018/19 - 11,517.</p> <p>Mae cynnydd o 12.9% wedi bod yn lefelau troseddau a gofnodwyd. Rhagwelwyd cynnydd mewn troseddau gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a chydweithwyr o'r Heddlu eleni oherwydd y newidiadau mewn arferion cofnodi. Fodd bynnag, mae Arolwg o Droseddau Cymru a Lloegr yn rhoi inni ddealltwriaeth ddyfnach o dueddiadau troseddau dros amser ac yn dal i ddangos bod troseddau'n gostwng.</p>
<p>Byddwn yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy gydweithio er mwyn mynd i'r afael â phroblemau lleol (5.1.1.3) (Targed 2018/19 - 5,810)</p>	✓	<p>Canlyniad 2018/19 - 4,894.</p> <p>Bu gostyngiad o 16.4% mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae'r gostyngiad hwn yn cyfateb i'r cynnydd mewn troseddau a gofnodwyd. Y rheswm am hyn yw bod yr Heddlu bellach yn cofnodi digwyddiadau fel troseddau ond, yn y gorffennol, efallai eu bod wedi cael eu hystyried yn ddiwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod nifer y dyddiau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i atgyweirio pob golau stryd diffygiol yn parhau i fod yn llai na 4 diwrnod (THS/009) (Canlyniad 2017/18 - 6.41 o ddiwrnodau / Targed 2018/19 - 4 o ddiwrnodau)</p>	✓	<p>Canlyniad 2018/19 - 3.98 o ddiwrnodau. Mae hyn yn cydymffurfio â'r targed ac yn dangos gwelliant.</p>